

GOLYGFFA 10 13:15

ALLAN - GAREJ RHYS - DYDD

CARYS, WIL, RHYS

RHYS YN CLO'R GAREJ CYN IDDO FO A WIL DDECHRAU CERDDED AM Y STRYD. WRTH IDDYNT BARIO, BRYSSIA CARYS ALLAN, OND CEISIA EDRYCH YN 'CWL', ER EI FOD O'N AMLWG FOD RHYWBETH AR EI MEDDWL. (COFIWN FOD RHYS DAL YN ISEL).

CARYS

Haia!

WIL

Iawn, Carys?

CARYS

Le y'ch chi'ch dou yn cael mynd ar brynhawn dydd Iau, de?

WIL

Dim ond piciaid i'r caffi i nôl cinio sydyn...

CARYS

Aa, 'na neis!

RHYS A WIL YN YMWYBODOL FOD RHYWBETH YN OD.

RHYS

Ti'n... iawn?

CARYS

Odw... odw... ydi llyg'ed Wil yn iawn yw'r cwestiwn?!

WIL

Sori?

CARYS

Odd gen ti lygad ddu ddim sbel yn ôl yn do'dd e? Wedi baglu medde ti...?

RHYS

Baglu? O'n i'n meddwl na'n chwarae rygbi ges di hi?

*sweeties*

WIL YN CHWYS DOMEN WRTH DRIO ESBONTO.

WIL

Ia, y... baglu dros droed y scrum half... chydig yn embarrassing - i ddeud y gwir. D'i'r hogia heb gau 'i cega am y peth...

RHYS

O, reff.

CARYS WEDI NODI ATEB ANGHYFFORDDUS WIL.

CARYS

Aa, wy'n siwr... ond falch fod e 'di gwella ta beth!

WIL YN AWYDDUS I DDIANC.

WIL

Diolch... ym... sa'i well i ni fynd, Rhys... neu fydd amser cinio bron (drosodd)... Tra Carys...

RHYS

Tara.

CARYS

Ie, hwyll! Joiwchi!

RHYS A WIL YN GADAEI. ALLAN AR CARYS YN AMAU'N GRŶF FOD BARRY WEDI PYNHO WIL.

[1'10]